**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB)**

**SUBJECT:** **CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB) - DYDD MAWRTH, 28 IONAWR 2020 DYDD MAWRTH, 28 IONAWR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: S. HEALY (CADEIRYDD)

| | |
|---|---|
| Councillors | Cynghorydd Stewart Healy (Cadeirydd) |
| | Cynghorydd Greg Paulsen (Is-gadeirydd) |
| | Cynghorydd Martin Cook (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Julie Holt (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Clive Meredith (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Godfrey Thomas (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Malcolm Day (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Phil Edwards (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Keith Hayden (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd John Hill (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Mark Holland (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Jonathan Millard (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd Amanda Moore (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd John C. Morgan (Aelod Pwyllgor) |
| | Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor) |

| |
|---|
| Cynghorydd Lee Parsons (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Keri Rowson (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Tommy Smith (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Bob Summers (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Haydn Trollope (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Joanna Wilkins (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd David Wilkshire (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Bernard Willis (Aelod Pwyllgor) |
| Cynghorydd Lisa Winnett (Aelod Pwyllgor) |
| Mr. Tim Baxter (Aelod Cyfetholedig) |

WITH:

| |
|---|
| Lynette Jones (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Anne-Louise Clark (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Gina Taylor (Swyddog) |
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Mr. Alun Williams (Aelod Cyfetholedig) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: - | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorwyr M. Cross, J.C. Morgan, S. Thomas, T. Smith, M. Cook | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **CYDBWYLLGOR CRAFFU**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2019.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 5 | **CYLLIDEB REFENIW 2020/2021 I 2024/2025**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar setliad llywodraeth leol darpariaethol cadarnhaol ar gyfer 2020/21 ac effaith hynny ar gyllideb y Cyngor. Cynigiodd yr adroddiad hefyd gyllideb fanwl ar gyfer 2020/21 a chyllideb ddangosol ar gyfer 2021/22; a chynigiodd lefel cynnydd y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, yn unol â thybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Dywedodd fod y setliad darpariaethol cadarnhaol a'r cyfleoedd a ddynodwyd yn rhaglen Pontio'r Bwlch yn golygu y gallai'r Cyngor fuddsoddi mewn blaenoriaethau allweddol, osgoi toriadau i wasanaethau a chynyddu ei gadernid ariannol ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, cyhoeddir manylion pellach y grantiau penodol ar gyfer llywodraeth leol ynghyd â setliad terfynol y Grant Cefnogi Refeniw ym mis Chwefror 2020.<br><br>Canmolodd Aelod y Swyddogion ar yr adroddiad cadarnhaol. Dywedodd fod hyn yn rhan bwysig iawn o'r broses gosod cyllideb a mynegodd bryder nad oedd unrhyw aelodau Llafur yn bresennol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y pwysau cost ar gyfer adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol er y cytunwyd | |

ar strategaeth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, fod gwahanol gamau eraill i gael eu cymryd a bod y rhain yn debygol o barhau am 2 flynedd arall.

Dywedodd Aelod Cyfetholedig fod y setliad cadarnhaol i Flaenau Gwent yn newyddion da iawn, yn arbennig y cynnydd mewn cyllid addysg a'r ffaith fod nifer disgyblion cynradd wedi cynyddu. Credai fod yr adroddiad yn ymddangos i awgrymu fod Blaenau Gwent yn sicrhau adferiad o'i ddirywiad economaidd.

Fodd bynnag, er bod y cynnydd yn y boblogaeth disgyblion yn gadarnhaol, gobeithiai y caiff hyn ei gefnogi'n ariannol. Cyfeiriodd hefyd at y diffyg yng nghyflogau a phensiynau athrawon a'r effaith bosibl ar gyllidebau ysgolion unigol. Dywedodd y byddai'n fanteisiol cael rhestr o ysgolion yn dangos y rhai sydd mewn sefyllfa gwarged/diffyg er mwyn ei chraffu gan Aelodau.

Wedyn cyfeiriodd yr Aelod Cyfetholedig at gymhlethdod cyllid ysgolion a dywedodd ei bod yn anodd cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod a gosod cyllidebau manwl gywir gyda nifer o grantiau'n cael eu dosbarthu drwy gydol y flwyddyn.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y nodir y sylwadau yng nghyswllt cyflogau a phensiynau athrawon. Fodd bynnag, os yw Aelodau o'r Cyngor yn cytuno i gyllido'r pwysau cost ar gyfer cyflogau a phensiynau athrawon am y 5 mis gweddilliol, byddai hyn yn arwain at gynnydd o tua 5% yng nghyllidebau ysgolion unigol.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg hefyd gadarnhau fod yr awdurdod lleol ac EAS wedi codi mater y ffaith na fedrir rhagweld faint o gyllid grant a ddyrennir gyda Llywodraeth Cymru.

Dilynodd trafodaeth fer parthed rhaglen Pontio'r Bwlch pan gadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod dal ati gyda'r ffrydiau gwaith yn gymhelliant clir i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Fodd bynnag, byddai'n gall defnyddio unrhyw gyflwyniad yn fwy na'r gofyniad cyllideb mewn ffordd tebycach i fusnes, yn hytrach na gorfod gwneud toriadau, ac er ei bod yn ddymunol gosod cyllideb ddangosol am y 2 flynedd nesaf, byddai blynyddoedd diwethaf y Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn heriol os nad ydym yn cyflawni rhaglen Pontio'r Bwlch.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelodau fod hwn yn adroddiad

| | | |
|---|---|---|
| | cadarnhaol iawn a chanmolodd y Swyddogion am eu gwaith a'u rheolaeth ariannol ddarbodus.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chefnogi Opsiwn 1, sef:<br><br>i. Bod Aelodau'n argymell cyllideb refeniw 2020/2021 a chyllideb ddangosol lefel uchel 2021/2022 (fel yn Atodiad 5 a phara 6.4.1) i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor;<br><br>ii. Nodi'r potensial am newid pellach yn Setliad Terfynol y Grant Cefnogi Refeniw (paras 2.8 – 2.19);<br><br>iii. Nodi'r canlyniadau o fewn Setliad Grant Cefnogi Refeniw darpariaethol CBSBG a'i effaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (paras 2.20 - 2.26);<br><br>iv. Argymell y pwysau cost ac eitemau twf diweddaraf (cyfanswm o £2m) a ddynodwyd yn Atodiad 3 (paras 5.1.6. – 5.1.8) i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor ar gyfer eu cynnwys yng nghyllideb y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cyllideb Trawsnewid drosfwaol o £500k i'w defnyddio ar gyfer cyfleoedd gweithredu ar gyfer Blaenau Gwent.<br><br>v. Argymell i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor y dylid 'pasportio' gwariant o'r cyn grantiau penodol/cyllid ychwanegol hyn i gyllideb y Cyngor (paras 5.1.11 – 5.1.18);<br><br>vi. Argymell i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor y dylid trosglwyddo unrhyw gyflawniad gan gynigion Pontio'r Bwlch sy'n fwy na'r gofyniad cyllideb o fewn y flwyddyn i gronfa gadw wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi cynllunio ariannol tymor canol, yn benodol ar gyfer blynyddoedd diweddarach y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (para 5.1.28);<br><br>vii. Argymell i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor fod cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 (para 5.1.3) yn unol â thybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol. | |